

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a dros y rhwydwaith fideo am 10.00 – 11.50 ar 13 Chwefror 2018

Yn bresennol:

Aelodau: William Callaway (Cadeirydd)
Yr Athro Iwan Davies
Gareth Eyres
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Gareth Pierce

Archwilwyr: Carol Warburton, Baldwins (Archwilwyr mewnol)

Swyddogion: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Yn bresennol Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	<p>1.1 Adroddwyd bod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi cymeradwyo penodiad William Callaway fel cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>1.2 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd newydd.</p> <p>1.3 Nid oedd ymddiheuriadau i'w nodi.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Nid oedd datganiadau o ddiddordeb.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	<p>3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017, fel cofnod cywir.</p> <p>3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u gwireddu neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda.</p> <p>3.3 <u>Eitem 3.8 – Rhestr ffioedd</u> Nododd yr Ysgrifennydd bod mater ffioedd taladwy i aelodau allanol pwyllgorau wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Penodiadau a Safonau.</p>		
4. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio a Risg (Eitem 5)	<p>4.1 Derbyniwyd Cynllun Gwaith drafft ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>4.2 Yn ystod y drafodaeth nodwyd y dylid ychwanegu i'r cynllun fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro cynnydd argymhellion yr Archwilwyr Mewnol o'r flwyddyn flaenorol • Nodi yn flynyddol adroddiad ar roddion a lletygarwch a dderbyniwyd; ac adroddiad blynyddol ar chwythu'r chwiban a chydymffurfiaeth gwybodaeth gan gynnwys ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ceisiadau mynediad testun ac unrhyw torri data. <p>4.3 Yn amodol ar ychwanegu'r materion hyn, cymeradwywyd y ddogfen.</p>	SL i ddiwygio'r cynllun Gwaith	Chwefror 2018
5. Llythyr Grant Llywodraeth Cymru	5.1 Nodwyd nad oedd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd. Nodwyd pryder y Pwyllgor Archwilio a Risg yn hyn o beth.		
6. Cyllideb ddrafft y Coleg 2018/19 (Eitem 7)	6.1 Cyflwynwyd Cyllideb ddrafft y Coleg ar gyfer 2018/19 gan y Cofrestrydd.	Cyflwyno cyllideb ddrafft 2018/19 i'r BC	8 Mawrth 2018

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>6.2 Nodwyd bod y gyllideb yn dilyn patrwm tebyg i'r blynyddoedd a fu. Nodwyd bod cyllideb Cynllunio Academaidd yn llai a'r Ysgoloriaethau'n fwy a hynny oherwydd trosglwyddo i flwyddyn gyllidol newydd.</p> <p>6.3 Nodwyd ymhellach yr incwm ychwanegol a dderbynnir gan y Coleg:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Tystysgrif Cymhwysedd Athrawon – incwm wedi'i gadarnhau gan Lywodraeth Cymru. • Cymraeg Gwaith - disgwylir y caiff ei gadarnhau yn y dyfodol agos wedi i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol dderbyn eu llythyr gorchwyl. • Y Babel Wyddoniaeth – incwm wedi'i gadarnhau gan yr Eisteddfod Genedlaethol. • Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith – trafodaethau ar waith. • Tanysgrifiadau Prifysgolion Cymru – incwm arferol. <p>6.4 Nodwyd y bydd y gyllideb a'r Cynllun Gweithredu a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac sydd yn cynnwys mwy o fanylion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> <p>6.5 Trafodwyd yn fyr trefniadau grantiau canghennau.</p>		
<p>7. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Gyllideb (Eitem 8a)</p>	<p>7.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gyllideb y Coleg gan Carol Warburton.</p> <p>7.2 Eglurwyd bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar brosesau a gweithdrefnau'r Gyllideb a'r cynnydd a wnaed ers adolygu'r broses rhwng Ionawr a Mawrth 2017.</p> <p>7.3 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad gyda phum pwynt gweithredu i'w monitro ac i'w cyflwyno yn adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol fis Mai.</p>	<p>Adroddiad cynnydd yn yr Adroddiad Blynyddol (CW)</p>	<p>Erbyn 15 Mai 2018</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
8. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Gyflogres a Threuliau (Eitem 8b)	<p>8.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Gyflogres a Threuliau gan Carol Warburton.</p> <p>8.2 Eglurwyd bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn eu lle i hwyluso'r broses gyflogres a threuliau yn unol â pholisïau mewnol a deddfwriaethol a'r cynnydd a wnaed ers cyflwyno adolygiad i'r pwyllgor ym mis Mai 2016.</p> <p>8.3 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad gyda mân argymhellion i'w gweithredu gan y swyddogion.</p>		
9. Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gaffael a Gwariant (Eitem 8c)	<p>9.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gaffael a Gwariant gan Carol Warburton.</p> <p>9.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithdrefnau a phrosesau digonol yn eu lle i gefnogi a hwyluso caffael effeithiol a rheolaeth gyllidebol briodol a'r cynnydd a wnaed ers cyflwyno adolygiad i'r pwyllgor ym mis Mai 2016.</p> <p>9.3 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad gyda mân argymhellion risg isel i'w gweithredu gan y swyddogion.</p> <p>9.4 Nodwyd mai nifer bychan o dendrau dros £25,000 a wahoddir gan y Coleg felly nid oes llawer o achosion ble mae angen gwiriadau cwmni. Cytunwyd i wirio ar sail y risg.</p> <p>9.5 Nodwyd bydd yr Archwilwyr Mewnol yn cyflwyno adroddiad blynyddol ac adroddiad ar ddiogelu data yng nghyfarfod 15 Mai 2018.</p> <p>Ar y pwynt hwn ymadawodd Carol Warburton.</p>	<p>Gwirio cwmnïau ar sail y risg cyn derbyn tendr</p> <p>Adroddiad Blynyddol ac Adroddiad TG (CW)</p>	<p>Wrth dderbyn tendr</p> <p>Erbyn 15 Mai 2018</p>
10. Penodi Archwilwyr Allanol ac Archwilwyr Mewnol	<p>10.1 Cafwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd ar benodi Archwilwyr Allanol ac Archwilwyr Mewnol.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>10.2 <u>Archwilwyr Allanol</u> - Derbyniwyd un tendr a chynhaliwyd cyfweiliad gan William Callaway, Gareth Pierce a Dr Dafydd Trystan. Cytunodd y panel i argymell ail-benodi PriceWaterhouseCoopers ar gyfer tymor pellach tan Fawrth 2021. Yn dilyn derbyn yr argymhelliad a thrafodaeth cytunodd y Pwyllgor Archwilio a Risg i argymell y penodiad i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.</p> <p>10.3 <u>Archwilwyr Mewnol</u> - Ni dderbyniwyd unrhyw dendrau. Mynegwyd gofid ynghylch diffyg cwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau archwilio mewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i argymell i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i ofyn i gwmni Baldwins parhau am flwyddyn bellach. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r swyddogion a'r Cadeirydd ymchwilio opsiynau eraill. Cytunwyd i ofyn cyngor yr ICAEW.</p> <p>Ar y pwynt hwn ail-ymunodd Carol Warburton.</p>	<p>Argymell i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ail-benodi PWC</p> <p>Gwahodd Baldwins i barhau am flwyddyn</p> <p>Cysylltu â ICAEW (DT)</p> <p>Adrodd nôl ar ddewisiadau archwilio mewnol (DT)</p>	<p>8 Mawrth 2018</p> <p>Chwefror 2018</p> <p>Chwefror 2018</p> <p>Mai 2018</p>
<p>11. Y Gofrestr Risg (Eitem 10)</p>	<p>11.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd a'r Rheolwr Gweithredu ar y Gofrestr Risg. Darparwyd y Gofrestr Risg presennol a thempled ddrafft yn nodi 6 o grwpiau risg yn y dyfodol.</p> <p>11.2 Croesawyd y dempled newydd ac ystyriwyd y diffiniadau o effaith a thebygolrwydd risg; newidiadau i fformat a chynnwys y gofrestr risg strategol; a dull diweddarau'r gofrestr risg.</p> <p>11.3 Cytunwyd ar ddiwyg y templed a nodwyd nifer o argymhellion i'w cynnwys yn y gofrestr drafft newydd.</p> <p>11.4 Argymhellwyd y dylid diweddarau'r gofrestr yn sgîl sylwadau'r aelodau a'i gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'w ystyried yn llawn.</p>	<p>Cofrestr Risg newydd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr</p>	<p>8 Mawrth 2018</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
12. Polisi Buddsoddiadau (Eitem 11)	<p>12.1 Cafwyd diweddariad gan y Cofrestrydd ar y camau tuag at sefydlu polisi buddsoddiadau'r Coleg.</p> <p>12.2 Mae'r Coleg wedi cysylltu â thri chwmmi a allai darparu gwasanaeth i'r Coleg. Bwriedir cyfarfod ag aelodau o Sarasin a Brewin Dolphin yn ystod y cyfnod nesaf gyda'r bwriad o'u gwahodd i roi cyflwyniad i'r pwyllgor.</p> <p>12.3 Cytunwyd y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r swyddogion ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o'r Pwyllgor Archwilio a Risg neu'r Bwrdd sydd â diddordeb penodol i gwrdd â'r cwmnïau.</p> <p>12.4 Nodwyd y bydd angen sicrhau buddsoddi moesol fel rhan o'r cyngor, a bydd hyn yn rhan o'r trafodaethau.</p>	<p>Trefnu cyfarfodydd gyda Sarasin a Brewin Dolphin (DT)</p>	<p>Gwanwyn 2018</p>
13. Cronfeydd cyfyngedig (Eitem 12)	<p>13.1 Cyflwynwyd adroddiad ar gronfeydd cyfyngedig gan y Cofrestrydd.</p> <p>13.2 Cytunwyd i agor y cyfrif banc penodol am y tro i ddelio gydag ewyllys penodol a chreu yn y tymor canolig canllawiau ar gyfer cronfeydd tebyg yn y dyfodol.</p> <p>Ar y pwynt hwn ymadawodd Gareth Pierce.</p>		
14. Cyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer Chwarter 2 2017/18 (Eitem 13)	<p>14.1 Cafwyd eglurhad ar Gyfrifon Rheoli'r Coleg ar gyfer chwarter 2 2017/18 gan y Cofrestrydd.</p> <p>14.2 Nodwyd mai'r unig amrywiad sylweddol oedd yn yr Ysgoloriaethau. Eglurwyd bod y gwariant yn gyson â'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2017/18.</p> <p>14.3 Derbyniwyd y cyfrifon.</p>		
15. UFA	<p>15.1 Yn unol ag amcanion y Cylch Gorchwyl nododd Cadeirydd y Coleg bod argymhelliad i'w rhoi gerbron y Pwyllgor Penodiadau nesaf i benodi aelod annibynnol ychwanegol i'r pwyllgor.</p>	<p>Aelod annibynnol</p>	<p>15 Mai 2018</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
16. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	16.1 Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf yng Nghaerdydd: <ul style="list-style-type: none"> • 15 Mai 2018, 10.00-12.30 16.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.		